

Gweithgareddau Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar

Gweithgaredd Un: Cyflwyniad i hawliau

Cysylltiad â'r Cwricwlwm i Gymru:

Y Dyniaethau, Disgrifiad Dysgu (DD) 4:

Cam Cynnydd (CC) 1 — *'Rwy'n gallu ddangos ymwybyddiaeth o bwy ydwyf a'm bod i'n debyg ac yn wahanol i eraill.'*

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, DD4:

CC1- *'Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd.'*

Cysylltiad â Hawliau Plant:

Erthygl 2: Mae gan bob plentyn yr hawliau yma

Erthygl 19: Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy niweidio neu fy nhrin yn wael

Erthygl 24: Mae gen i hawl i ofal iechyd o safon dda, dŵr glân a bwyd da

Erthygl 31: Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae

Gweithgareddau	Gwybodaeth ac Adnoddau Ychwanegol
<p>Cyflwyniad:</p> <p><i>Esboniwch:</i></p> <p>"Heddiw byddwn ni'n meddwl am y pethau sy'n cadw ni'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Y pethau byddwn ni'n siarad amdany'n nhw yw eich hawliau plant."</p> <p><i>Gofynnwch:</i></p>	<ul style="list-style-type: none">Os yw eich lleoliad yn defnyddio Makaton — efallai byddwch chi am gynnwys ffurfiau Makaton Hapus, Iach a Diogel yn y fan hon. Ewch i'r wefan hon i ddysgu mwy am Makaton.

"Allwch chi ddangos eich wynebau hapus i fi?" (modelwch y mynegiant priodol ar yr wyneb)

"Allwch chi ddangos eich bod chi'n iach?" (rydyn ni'n argymhell modelu cyhyrau neu ryw fath o symudiad corfforol)

"Allwch chi roi cwtsh mawr i chi'ch hunan i deimlo'n ddiogel?" (modelwch roi cwtsh i chi'ch hunan)

Dewisol:

Esboniwch y byddwch chi, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn dysgu am wahanol hawliau plant ac yn gweithio gyda'ch gilydd i greu arddangosfa. Bydd yr arddangosfa yn dangos i bawb sy'n ymweld â'ch lleoliad beth rydych chi wedi dysgu am hawliau plant.

Gweithgaredd:

Corff o hawliau

1. Tynnwch lun mawr o amlinelliad gorff. Gallech chi baratoi hyn cyn y sesiwn neu gynnwys y plant trwy dynnu amlinelliad ohonyn nhw ar bapur neu ddefnyddio sialc mewn lle chwarae awyr agored.
2. Dangoswch fag i'r plant (mae syniadau am beth i'w roi yn y bag yn y golofn nesa) a dweud wrthyn nhw y byddwch chi'n edrych ar y pethau yn y bag.
3. Gallwch canu cân syml fel "Beth sy' yn y bag" ac yna dewiswch blentyn i ddewis eitem.
4. Gofynnwch iddyn nhw "Beth yw hwn/hwnna?"
5. Modelwch yr iaith os nad yw'r plentyn yn siŵr beth yw'r eitem.
6. Esboniwch beth yw'r eitem a pham mae'n bwysig i blant.
7. Gofynnwch i'r plentyn roi'r eitem tu mewn i'r corff.
8. Ailadroddwch gamau 3-7 ar gyfer pob eitem.

Ar ôl siarad am bob cerdyn, rhwch nhw yng nghanol y corff.

- Ailadroddwch y symudiadau bob tro rydych chi'n defnyddio'r geiriau "Hapus, Iach, Diogel".
- Gallwch chi ddefnyddio fersiwn darllen hwylus o CCUHP, sy'n rhestru hawliau'r plentyn gan ddefnyddio symbolau. Cewch hyd i'r fersiwn yna [yma](#).
- Mae poster 'Hapus, Iach, Diogel' ar gael [yma](#).

Rydyn ni'n argymhell defnyddio **3 neu 4** o bropiau i ddechrau. Efallai byddwch chi eisiau defnyddio mwy.

Rydyn ni'n argymhell defnyddio'r eitemau canlynol:

- Pêl neu rywbeth mae'r plant yn eich lleoliad yn mwynhau chwarae gyda i gynrychioli bod yn 'hapus'. Efallai bydd angen i chi greu cysylltiadau rhwng Erthygl 31, yr hawl i chwarae, a theimladau'r plant am chwarae. "Sut rydych chi'n teimlo wrth chwarae'r gêm yma?"
- Bwyd iach (fel afal) i gynrychioli bod yn 'iach'.

<p><i>'Mae'r holl bethau yma yn cadw ni'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Dyma eich hawliau plant.'</i></p> <p>Rydyn ni'n awgrymu ailadrodd y gweithgaredd yma sawl tro i wreiddio'r geiriau 'hapus, iach a diogel'. Efallai byddwch chi am ychwanegu mwy o eitemau/lluniau neu newid yr eitemau wrth i blant ddod yn fwy cyfarwydd â'r gweithgaredd a iaith hawliau plant. Falle byddwch chi eisiau cynnwys ambell carden her, er enghraifft siocled, i weld beth yw barn y plant.</p> <p>Syniad arddangosfa: Gallech chi dynnu lluniau o'r gweithgaredd yma i'w cynnwys mewn arddangosfa, neu ddefnyddio'r corff (os ydych chi'n creu fersiwn bapur) a gofyn i'r plant dynnu llun y pethau buoch chi'n trafod.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cartref (defnyddiwch luniau o fathau gwahanol o gartrefi i sicrhau bod yr holl blant yn eich lleoliad yn cael eu cynrychioli) i gynrychioli bod yn 'ddiogel' <p>Corff o Hawliau: Mae gennym ni luniau o bethau rydyn ni 'eisiau neu angen' yma. Fel arall, gallech chi greu eich rhai eich hunain.</p> <p>Gwelir cardiau lliwio 'eisiau neu angen' yma.</p>
<p>Syniadau ar gyfer gweithgareddau/dysgu estynedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud marciau — unwaith mae'r gweithgaredd wedi'i gwblhau gofynnwch i'r plant dynnu llun yr eitemau tu mewn i'r corff. • Paentio/tynnu lluniau/liwio lluniau o bethau sy'n cadw nhw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel • Torri a gludo lluniau o bethau sy'n cadw nhw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel i mewn i amlinelliad o gorff • Tynnu ffotograffau o eitemau yn y dosbarth/o amgylch eu lleoliadau sy'n gwneud nhw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel • Ymarfer ffurfio rhif 2 (Erthygl 2, mae hawliau gan bob plentyn) 	

Gwers Dau: Dysgu am Emosiynau (Hapus)

Cysylltiad â'r Cwricwlwm i Gymru:

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, DD3:

CC1- *'Rwy'n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi'r hyn yr wyf yn ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.'*

Y Celfyddydau Mynegiannol, DD3:

CC1- *'Rwy'n gallu mynegi fy syniadau, teimladau ac atgofion yn fy ngwaith creadigol.'*

Cysylltiad â Hawliau Plant:

Erthygl 3: Rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i fi

Erthygl 12: Mae gen i hawl i gael fy ngwrando a'm cymryd o ddifri

Erthygl 31: Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae

Gweithgareddau	Adnoddau a Gwybodaeth Ychwanegol
<p>Cyflwyniad:</p> <p><i>"Heddiw byddwn ni'n meddwl am beth mae bod yn hapus yn golygu. Rydyn ni'n mynd i ddysgu am wahanol deimladau."</i></p> <p><i>"Heddiw byddwn ni'n meddwl am Erthygl 12 - mae gen i hawl i bobl wrando arna i."</i></p>	<p>Defnyddiwch gardiau symbolau i gefnogi dysgu'r plant.</p>

Adnabod emosiynau

Fel arweinydd y grŵp dangoswch wahanol emosiynau ar eich wyneb, NEU dangoswch wahanol luniau o wynebâu â gwahanol emosiynau. Gallech chi ddefnyddio emosiynau o'r ffilm 'Inside out' fel cyfeiriad y gallai'r plant fod yn ymwybodol ohono. Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant:

"Sut rydw i/Sut maen nhw (y person yn y llun) yn teimlo?"

Mae'n iawn os bydd gan y plant wahanol syniadau. Mae hynny'n gyfle i gydnabod ein bod ni'n gallu dehongli emosiynau mewn ffyrdd gwahanol. Ceisiwch gytuno fel grŵp pa emosiwn rydych chi'n mynd i ddewis, e.e. hapus.

"Allwch chi ddangos eich wyneb [emosiwn] i fi?"

"Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n [emosiwn]?" e.e. os hapus yw'r emosiwn, atebion posib yw: chwarae, bod gyda ffrindiau/gyda'r teulu, chwarae gydag anifail anwes etc. Gallech chi ddefnyddio'r cardiau lluniau o sesiwn 1 i helpu'r plant i fynegi eu syniadau.

Gallwch chi gysylltu'r cwestiynau yma â gwahanol rannau o fywyd, e.e. beth sy'n gwneud chi'n hapus yma/gartre? *Gallai hyn fod yn weithgaredd estynedig i roi hwb i'r dysgu.*

Cwestiwn estyn:

"Beth wyt ti'n gwneud pan wyt ti'n teimlo'n [emosiwn]?" e.e. os hapus yw'r emosiwn, atebion posib yw: gwenu, chwerthin, neidio i fyny ac i lawr, siarad â phlant eraill, treulio amser ar fy mhen fy hun, gwneud rhywbeth rydw i'n mwynhau fel creu pasteiod mwd neu ddarllen.

Dechreuwch trwy gyflwyno 3 neu 4 teimlad gall y plant eu henwi, er enghraifft hapus, trist, crac a blinedig. (Hefyd gallech chi roi cynnig ar 'ofnus' neu 'pryderus')

Gweithgaredd:

Chwaraewch wahanol fathau o gerddoriaeth i'r plant yn eich lleoliad, gallech chi wneud hyn yn ystod y sesiwn ymarfer corf neu fel gweithgaredd rhydd.

Wrth i'r plant ddawnsio, gallwch chi gydnabod effaith y gwahanol fathau o gerddoriaeth ar eu hemosiynau.

"Rydw i'n gallu gweld llawer o wynebau hapus yn gwenu. Rydw i'n gallu gweld llawer o neidio a symudiadau mawr."

"Mae pawb yn symud yn araf i'r gân yma. Mae gan rai pobl wynebau trist."

Gofynnwch i'r plant sut roedd y gerddoriaeth yn gwneud iddyn nhw deimlo. Efallai byddwch chi eisiau chwarae cân rydych chi'n gwybod bod y plant yn ei hoffi i'w helpu i greu'r cysylltiad rhwng y gerddoriaeth a theimlo'n hapus.

Gallech chi ofyn i'r plant pa gân neu gerddoriaeth sy'n eu gwneud nhw'n hapus? Beth yw eu hoff gân? Gallech chi wrando a dawnsio i'r caneuon yma yn ystod y sesiwn neu wrando ar hoff gân plentyn gwahanol bob dydd, fel bod pawb yn teimlo'n hapus.

Dewisol:

Gallech chi greu rhestr o hoff ganeuon yr holl blant i'w rhoi ar eich arddangosfa hawliau. Allech chi anfon hoff ganeuon eich grŵp adre gyda'r plant, fel bod rhieni a gwarcheidwaid yn gallu mwynhau nhw hefyd?

Syniad arddangosfa:

- Emosiynau — gallech chi gymryd lluniau o blant yn mynegi eu hemosiynau neu ddefnyddio'u gwaith celf ar gyfer arddangosfa. Bydden ni'n argymhell defnyddio ein pecyn symbolau i gynnwys Erthygl 12 yn eich arddangosfa.

Curiad cyflym:

<https://www.youtube.com/watch?v=M93qXQWaBdE>

Curiad araf:

https://www.youtube.com/watch?v=Ba_kOUmIDME

<ul style="list-style-type: none"> • Arddangosfa lyfrau — gallech chi ddefnyddio ein hargymhellion o ran llyfrau i greu arddangosfa a'i chysylltu ag Erthygl 12. 	
<p>Syniadau ar gyfer gweithgareddau/dysgu estynedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu gwahanol wynebau allan o does chwarae neu deunyddiau naturiol • Creu wal teimladau/ardal gwirio emosiynau: Defnyddiwch yr emosiynau sylfaenol fel hapus a thrist. • Creu wynebau ar blatiau papur, gallen nhw gynrychioli'r plant neu gallech chi greu wal teimladau i helpu'r plant i ddisgrifio sut maen nhw'n teimlo ar ddechrau pob diwrnod • Llyfrau defnyddiol i helpu gyda thrafod teimladau: Weithiau dwi'n teimlo'n heulog, Pan dwi'n hapus, Weithiau dwi'n poeni, Hapus, Sut dwi'n teimlo 	

Gwers Tri: Picnic y Tedis (Iach)

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru:

Iechyd a Lles, DD1:

CC1- *'Rwy'n dechrau gwneud cysylltiadau rhwng fy neiet a'm hiechyd a lles corfforol.'*

Y Celfyddydau Mynegiannol, DD1:

CC1- *'Rwy'n dechrau archwilio syniadau, teimladau a gwahanol naws mewn amrywiaeth o waith creadigol.'*

Cysylltiad â Hawliau Plant:

Erthygl 3: Rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i fi

Erthygl 24: Mae gen i hawl i ofal iechyd o safon dda, dŵr glân a bwyd da

Gweithgareddau	Adnoddau a Gwybodaeth Ychwanegol
<p>Cyflwyniad:</p> <p><i>"Heddiw byddwn ni'n meddwl a siarad am fod yn iach."</i></p> <p><i>"Allwch chi ddangos eich bod chi'n iach?"</i> (rydyn ni'n argymhell modelu cyhyrau neu ryw fath o symudiad corfforol)</p> <p>Dangoswch Erthygl 24 i'r plant, beth maen nhw'n gallu gweld ar y cerdyn symbolau? (Mae gen i hawl i gael gofal iechyd, dŵr glân a bwyd da).</p>	<p>Defnyddiwch gardiau symbolau i gefnogi dysgu'r plant.</p>

Gweithgaredd

Paratowch Bicnic yr Eirth ar gyfer hoff dedi neu degan eich lleoliad. Ydy'r plant wedi bod ar bicnic o'r blaen? Ble aethon nhw? Beth wnaethon nhw fwyta?

Llanwch fag siopa â dewisiadau bwyd iach, rydyn ni'n argymhell defnyddio eitemau go iawn lle bo modd.

Gallech chi ganu cān syml fel 'Beth sy' yn y bag?' tra bod y plant yn tynnu gwahanol eitemau allan. Trafodwch bob eitem cyn ei rhoi ar flanced neu mewn basged i Tedi fwynhau. Gallech chi ofyn i'r plant ydyn nhw'n hoffi'r bwyd, neu ydyn nhw erioed wedi'i flasau o'r blaen?

Pan fydd y plant yn dod yn fwy cyfarwydd â bwyd iach a gwneud dewisiadau iach, efallai byddwch chi am iddyn nhw ychwanegu eitemau newydd fel diod pop a siocled at y bag a'u trafod.

Falle byddwch chi am ddilyn polisi eich meithrinfa ar fwyta'n iach i helpu gyda'r trafodaethau yma.

Dylech chi sicrhau bod pob teulu sy'n mynychu eich lleoliad yn cael eu cynrychioli. Efallai byddwch chi am weithio gyda theuluoedd i'w holi am y mathau o brydau/fwydydd maen nhw'n bwyta gartref.

Dewisol:

Gallai'r plant gynllunio'u Picnic eu hunain i'r Tedis. Pa fwydydd iach hoffen nhw ddewis?

Gallech chi lunio rhestr siopa iach fel grŵp cyfan neu mewn grwpiau llai.

<p>Oes yna gyfle i fynd i'r archfarchnad leol neu i siop y gornel i brynu eitemau sydd ar y rhestr ar gyfer y picnic?</p> <p>Gallai'r plant baratoi eu brechdan eu hunain a byrbryd iach fel salad ffrwythau, neu addurno byrbryd.</p> <p>Opsiwn arall yw gosod paratoi picnic fel gweithgaredd gartre, fel bod y plant yn dod â'u plât eu hunain o fwyd iach i mewn ar y diwrnod. Efallai byddwch chi am weithio gyda theuluoedd i holi am y mathau o brydau/fwydydd maen nhw'n bwyta gartref. Hefyd gallech chi ofyn iddyn nhw rannu ryseitiau sy'n bwysig i'w teulu.</p> <p>Gallech chi wahodd gwarcheidwaid/aelodau o'r gymuned i ddod i'r picnic hefyd.</p> <p>Cofiwch atgoffa'r plant i ddod â thegan/tedi/doli i fwynhau gyda nhw.</p> <p><i>Syniad arddangosfa:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallech chi gynnal pleidlais ar gyfer yr ardal chwarae rôl i'w harddangos yn eich lleoliad. • Efallai byddwch chi hefyd am dynnu lluniau o'r plant yn rhannu eu hoff weithgaredd i gadw eu cyrff yn heini ac yn iach, ac yn troi hynny'n arddangosfa. 	
<p>Syniadau ar gyfer gweithgareddau/dysgu estynedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crewch ardal chwarae rôl yn gysylltiedig a fod yn iach • Paratowch fag/focs o eitemau cymysg o'r dosbarth a gofyn i'r plant ddewis y pethau sy'n cadw nhw'n iach • Torri a gludo lluniau ar blât papur i greu pryd iach o fwyd • Beth yw hoff fwydydd y plant? Tynnwch/paentiwch/gludwch luniau i'w cynnwys yn eich arddangosfa ar y wal. • Trefnwch sesiwn flasau yn llawn bwydydd iach i'r plant (*gofalwch eich bod chi'n gwirio alergeddau ac anghenion deiet ymlaen llaw*). Beth oedd hoff 	

fwydydd y plant? Cyfle da i ymarfer geirfa, lliwiau a chyfri. Rhowch luniau o'r plant yn blasu bwydydd newydd ar yr arddangosfa hawliau.

- Cyrff iach: Rhowch gyfleoedd i'r plant ymarfer a mwynhau symud yn rhydd.
- Meddyliau iach: Cyflwynwch symudiadau ioga i'r plant, y gallech chi eu defnyddio yn ystod sesiwn 'dawel' sy'n rhan o'r diwrnod.
- Llyfrau defnyddiol I ymwneud a bod a chadw'n iach: Y lindysyn llwglyd iawn, Y Goeden Ioga, Pryder Glain, Paid â phoeni

Gwers Pedwar: Y Tri Mochyn Bach (Diogel)

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru:

Iechyd a Lles, DD5

CC1- *'Rwy'n dechrau sylweddoli bod gen i'r hawl i gael fy nhrin mewn ffordd deg a pharchus.'*

Iechyd a Lles, DD5

CC1- *'Rwy'n gallu adnabod pwy sy'n gofalu amdanaf fi a phwy yw fy nheulu a'm ffrindiau.'*

Cysylltiad â Hawliau Plant:

Erthygl 19: Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy niweidio neu fy nhrin yn wael

Erthygl 27: Mae gen i hawl i gael cartref, bwyd a dillad

Gweithgareddau	Adnoddau a Gwybodaeth Ychwanegol
<p>*Nodyn atgoffa: Wrth drafod bod yn ddiogel, mae'n bosib y bydd plant yn codi pryderon sydd ganddyn nhw am eu bywyd eu hun. Os bydd plentyn yn gwneud datgeliad yn ystod gweithgaredd neu wedi hynny, dylech chi ddilyn polisi diogelu eich lleoliad bob amser.*</p> <p>Cyflwyniad:</p> <p><i>"Heddiw byddwn ni'n dysgu am beth mae angen ar blant i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel."</i></p>	

"Rydyn ni'n mynd i wrando ar stori a meddwl beth sy'n creu lle diogel i ni. Rydyn ni'n mynd i feddwl am Erthygl 19 (dangoswch y cerdyn symbolau) ac Erthygl 27 (dangoswch y cerdyn symbolau)."

Gweithgaredd:

Gwahoddwch yr holl blant i wneud eu hunain yn gyfforddus i glywed stori.

Adroddwch stori'r Tri Mochyn Bach. Anogwch y plant i gymryd rhan yn y stori trwy adael bylchau iddyn nhw orffen y frawddeg.

Gofynnwch y cwestiwn 'Beth oedd yn gwneud i'r Moch Bach deimlo'n ddiogel?' Dywedwch wrth y plant eich bod chi'n mynd i weithio mewn grwpiau bach i adeiladu cuddfan/cysgod/tŷ i'r moch.

Gwahoddwch y plant i greu cuddfan o ddefnydd NEU gallech chi adeiladu cuddfan/cysgod ar raddfa lai ar gyfer tedi/tegan/person lego.

Wrth adeiladu'r cuddfan, defnyddiwch y cyfle i drafod gyda'r plant beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi? Pwy sy'n byw yn eu tŷ? Beth yw eu hoff beth am eu cartref?

Wrth orffen y gweithgaredd adeiladu cuddfan, modelwch iaith am ddiogelwch, a gwnewch sylwadau ar unrhyw drafod glywsoch chi am wneud y cuddfan yn fwy diogel (yn ymarferol), ond hefyd atgoffwch nhw am yr wybodaeth buon nhw'n ei rhannu am y bobl sy'n cadw nhw'n ddiogel. Er enghraifft:

"Fe wnaeth pawb rannu atebion hyfryd am pwy sy'n cadw nhw'n ddiogel, dywedodd rhai ohonoch chi mami, a dywedodd rhai ohonoch chi eich ci."

Erthygl 19: Mae gen i hawl i fod yn ddiogel a chael fy amddiffyn rhag niwed.

Erthygl 27: Mae gen i hawl i gael cartref, bwyd a dillad.

Defnyddiwch [gardiau symbolau](#) i gefnogi dysgu'r plant.

<p><i>Dewisol:</i> Defnyddiwch bropiau fel pyped neu luniau i arwain trafodaeth ar pwy sy'n cadw plant yn ddiogel yn eu Ysgol ac yn eu cymuned. Pobl fel athrawon, staff cinio, diffoddwyr tân, heddlu a meddygon. Mae hwn yn gyfle gwych i wahodd eich nyrs neu eich PCSO lleol i'r lleoliad i gwrdd â'r plant.</p> <p><i>Syniad arddangosfa:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan ddefnyddio'r Tri Mochyn Bach yn ffocws, gallech chi greu arddangosfeydd o waith celf y plant neu luniau ohonyn nhw'n adrodd y stori. • Gallech chi greu map o'ch ardal leol a dangos yr holl bobl yn eich cymuned sy'n helpu i'ch cadw chi'n ddiogel. 	
<p>Syniadau ar gyfer gweithgareddau/dysgu estynedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gadewch deganau a phypedau allan i'r plant chwarae gyda nhw ac ewch ati i ailgreu/chwarae rôl gyda stori'r tri mochyn bach • Gweithgaredd creadigol — gadewch i'r plant arbrofi wrth greu celf ag adnoddau naturiol fel ffyn, gwellt a cherrig. • Syniadau ar gyfer chwarae rôl: safle adeiladu, meddygfa, ysbyty • Meddyliwch am weithgareddau am pwy sy'n ein helpu/ein cadw'n ddiogel i'w gwneud gyda'ch cymuned • Nodwch rolau yn y gymuned fel heddwes/meddyg/diffoddwr tân etc — Pwy sy'n cadw chi'n ddiogel gartre/yn y feithrinfa/yn y gymuned? Sut maen nhw'n cadw chi'n ddiogel? • Ewch am dro yn eich cymuned leol — sylwch ar wahanol leoedd a phobl sy'n cadw ni'n ddiogel, tynnwch luniau o leoedd a phobl • Gwahoddwch bobl sy'n cadw ni'n ddiogel i mewn i'ch lleoliad, a chynnal sesiwn holi ac ateb — beth maen nhw'n ei wneud? Ydyn nhw'n defnyddio unrhyw offer neu gyfarpar arbennig? • Llyfrau defnyddiol am fod yn ddiogel a theuluoedd: Dwed Helô 	